



**Ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop ynghylch Statws
Cadwraethol – ar lefel fioddaearyddol yn yr UE (Erthygl 17 y Gyfarwyddeb
Cynefinoedd)**

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Crynodeb o ganllaw i ymgynghoriadau cyhoeddus Erthygl 17

Ymddengys fod y dull eang o grynhoi asesiadau'r amryw aelod-wladwriaethau er mwyn dod i gasgliad lefel uchel ynghylch statws yn ddull rhesymegol ac nad yw'n esgor ar lawer o bryderon o bwys. Dyma ein sylwadau ar y dogfennau a'r broses sy'n sail i'r ymgynghoriad hwn.

Cwmpas:

1. Wrth ymdrin â'r fethodoleg ar gyfer asesu Statws Cadwraethol, byddai o fantais cynnwys gwybodaeth am y gwaith sicrhau ansawdd a wneir (neu y bwriedir ei wneud) er mwyn asesu'r canlyniadau ar lefel y Gymuned Ewropeaidd ac ar lefel yr aelod-wladwriaethau. Gallai fod yn werthfawr cael partïon eraill i ddarparu adolygiad annibynnol o'r canlyniadau a'r casgliadau sy'n deillio o'r asesiadau ledled Ewrop.

Materion technegol yn ymwneud â'r fethodoleg:

2. Nid yw'n glir sut y lluniwyd yr asesiadau cyffredinol o amrediad daearyddol (*Range*) (ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau) ac ardal (*Area*) (ar gyfer cynefinoedd). Mae'r testun yn awgrymu y bydd y broses yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd gan yr aelod-wladwriaethau (tudalen 8, paragraff 3). Fodd bynnag, gallai newidiadau i ddulliau neu ansawdd y data sylfaenol olygu bod y tuedd yr adroddir yn ei gylch gan aelod-wladwriaeth yn gwyro oddi wrth y tuedd ymddangosiadol a amcangyfrifwyd o newidiadau yn y gwerth a nodwyd rhwng 2007 a 2013, a allai arwain at gasgliadau gwahanol ynghylch statws y paramedr. Felly, byddai o fudd pe bai modd egluro'r union ddull a ddefnyddir.

3. Er bod esboniadau ynghylch y categorïau 'anffafriol – annigonol' (**U1**) ac 'anffafriol – gwael' (**U2**) (Adran 2, tudalen 6, y pwyntiau bwled yn dilyn paragraff 1) wedi'u darparu i gynorthwyo'r darllenydd ac wedi'u defnyddio o'r blaen yng Nghlanllawiau Erthygl 17, nid ydynt yn cyd-fynd yn dda â'r meini prawf gwirioneddol (fel y cânt eu hamlinellu yn y matricesau gwerthuso ar dudalen 20) a ddefnyddiwyd yn y gwaith asesu. Er enghraifft, ni fydd llawer o'r rhywogaethau/cynefinoedd y bernir bod eu statws yn 'anffafriol – gwael' mewn perygl difrifol o ddiflannu ar lefel ranbarthol (h.y. gallai eu hamrediad daearyddol fod 10% islaw'r gwerth cyfeirio ffafriol, a gallai hyd yn oed fod yn gwella). Mae'n bosibl y bydd angen datrys yr anghydnawsedd hwn rhwng y diffiniad/esboniad a'r meini prawf gwirioneddol a ddefnyddir yn yr asesiadau.

4. Mewn achosion lle mae defnyddio gwybodaeth ar lefel aelod-wladwriaethau wedi bod yn broblematic ar gyfer llunio casgliadau ar lefel yr UE, byddai o fudd esbonio



maint y broblem e.e. ym mha % o nodweddion y cafodd amrediad daearyddol ei ddefnyddio yn lle poblogaeth?

5. Nid yw'r trothwyau a ddefnyddir i lunio'r casgliadau ynghylch Statws Cadwraethol yn gwneud cymaint o ddefnydd ag sy'n bosibl o'r data (Ffigur 2, tudalen 8) ac mae perygl y ceir cyhuddiadau bod tuedd i gyflwyno (**XX**) 'anhysbys' yn hytrach nag 'anffafriol' fel casgliad. Bydd y dull cyfredol yn nodi 'anhysbys' fel statws ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau lle ceir digon o wybodaeth i nodi statws 'anffafriol' ond lle nad oes digon o wybodaeth i nodi a yw'n 'wael' neu'n 'annigonol'. Mae'r sefyllfa hon yn codi lle nodwyd bod statws llai na 25% o'r adnodd yn 'anffafriol - gwael' a bod statws mwy na 25% o'r adnodd yn 'anhysbys', ond lle nodwyd bod statws mwy na 25% o'r adnodd yn 'anffafriol' (**U1** neu **U2**). O ran egwyddor, mewn achos eithafol, gallai hynny greu sefyllfa lle mae 24% o'r adnodd yn **U2** a lle mae 50% ohono yn **U1**, ond bod 'anhysbys' yn cael ei nodi fel statws oherwydd bod y 26% sy'n weddill wedi'i roi yn y categori hwnnw.

Byddai cynnwys categori '**anffafriol – anhysbys**' yn fodd i osgoi'r broblem hon.

Ateb arall i'r broblem fyddai sicrhau bod sefyllfaoedd lle:

mae $\geq 25\%$ o'r adnodd yn anffafriol (U1 neu U2) a lle mae llai na 25% ohono'n 'anffafriol – gwael' yn cael eu galw'n 'anffafriol – annigonol'.

Mantais y dull hwn o weithredu yw ei fod yn defnyddio'r categorïau presennol, er y byddai'n golygu wrth gwrs bod rhai nodweddion a allai fod yn 'anffafriol – gwael' (pe bai statws asesiadau anhysbys yn cael ei ddatrys) yn cael eu labelu ar gam yn nodweddion 'anffafriol – annigonol'.

6. Yn Nhabl 4 (tudalen 7) efallai fod angen i rai o'r diffiniadau fod yn fwy eglur e.e. MTX.

7. Byddai'r testun yn adran 3, sy'n ymdrin â diffyg gwybodaeth fanwl ar lefel aelod-wladwriaethau yng nghyswllt rhai paramedrau, e.e. rhagolygon yn y dyfodol, yn elwa o esboniad mwy manwl (gweler tudalen 8).

8. Gall y trothwyau a ddefnyddir i bennu goleddfwyr ar gyfer Statws Cadwraethol arwain at rai canlyniadau problematig (tudalen 10, Ffigur 4). Mae'r rhain yn cynnwys y rheol mai sefydlog fydd y goleddfwr cyffredinol, mewn achos lle bernir bod 75% neu fwy o'r adnodd yn sefydlog, beth bynnag fo'r tuedd cyffredinol yng ngweddill yr asesiadau. Nid ydym yn gweld fawr ddim angen am y cam hwn, a chan dybio nad oedd y rhan fwyaf o'r adnodd yn 'anhysbys' byddem yn fodlon seilio'r goleddfwr ar y balans net (rhwng gwella a dirywio) gan ddefnyddio'r rheol 10% i wahaniaethu rhwng sefydlog a thueddiadau cadarnhaol a negyddol.

Mae cadw'r terfyn o 75% yn rhoi sefyllfa i ni lle gallai 76% o adnodd fod yn sefydlog a lle gallai'r 24% sy'n weddill fod yn dirywio, sy'n arwain at y casgliad bod yr adnodd yn sefydlog (sefydlog $\geq 75\%$, felly, y goleddfwr yw (=)). Fodd bynnag, pe bai 74% o'r adnodd yn sefydlog, 8% ohono'n gwella a 18% ohono'n dirywio ($<75\%$ yn sefydlog, balans net (gwella – dirywio) $\geq 10\%$), byddai'n cael ei ystyried yn adnodd sy'n dirywio.



9. Mae'r matrices ar gyfer mesur cynnydd dan darged 1 (Adran 3.2, Tabl 5, tudalen 11) yn amlygu'r potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng y newid yn y Statws Cadwraethol yr adroddir yn ei gylch rhwng y ddwy rownd o gyflwyno adroddiadau a'r tuedd yn yr adroddiad diweddaraf. Felly, er enghraifft, (yn y matrices) gallai asesiad newid o 'ffafriol' i 'anffafriol – annigonol' er ei fod yn gwella, h.y. ar y naill law mae'r statws a nodir wedi dirywio, ond ar yr un pryd mae'r tuedd a nodir yn duedd o wella. Fel y mae, byddai'r asesiad hwn yn cael ei nodi ar sail y newid mewn statws a byddai'n cael ei ddisgrifio fel C(-) sy'n dangos dirywiad. Fodd bynnag, asesiad goleddfwr 2013 yw'r casgliad diweddaraf ynghylch y tuedd o ran statws, ac mae'n debygol o fod yn fwy dibynadwy na'r newid mewn statws rhwng y ddau adroddiad, sy'n fwy tebygol o gael ei sbarduno gan newid mewn dulliau, ansawdd data neu werthoedd cyfeirio ffafriol.

10. O safbwynt adran 3.2, mae'r dull o asesu cynnydd yn erbyn targed 1 Strategaeth Bioamrywiaeth 2020 yr UE yn ymddangos yn gadarn, ond er bod tueddiadau cadarnhaol mewn categorïau statws yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r targed, mae'n bwysig cydnabod bod cyflawni'r targed yn gofyn am welliannau gwirioneddol yng nghategori'r Statws Cadwraethol. Heb eglurder ynghylch y gwahaniaeth hwn, ceir perygl y gallai gael ei ystyried yn achos o wanhau'r targed cyffredinol.

Asesiadau unigol:

11. Ymddengys fod natur ymarferol y swyddogaeth fapio'n amrywio. Nid yw'n glir ai problem o ran y defnyddwyr ynteu problem o ran y wefan sy'n gyfrifol am hynny.

12. Er bod yr adroddiadau ar lefel gwledydd unigol ar gael, byddai darparu dolenni cyswllt â'r modd y cafodd y data hwnnw ei gyflwyno gan yr aelod-wladwriaethau (os yw'r dolenni cyswllt ar gael) o gymorth i hybu dealltwriaeth, oherwydd gallai'r gwefannau hynny ddarparu gwybodaeth ychwanegol, e.e. byddai gwefan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur ar gyfer y DU yn galluogi defnyddiwr i edrych ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan bob gwlad ddatganoledig.